

NEWYDDION DIWEDDARAF

Anodd coelio bod cynllun Ffrindia' bellach ar ei bedwaredd flwyddyn. Ers cychwyn y cynllun derbyniwyd dros 300 o gyfeiriadau trwy Wynedd, unigolion sydd wedi elwa o gael eu cyfeillio, gyda dros 128 o wirfoddolwyr wedi cael eu recriwtio. Fe gytunwch, dwi'n siwr, fod y ffigyrau yn dangos llwyddiant y cynllun hyd at yma. Eich ymroddiad chi, gwirfoddolwyr sydd yn gwneud y gwahaniaeth ac i chi mae'r diolch!

DYDDIAD I'R DYDDIADUR - 24/02/15 - 10.30 -11.30 y.b.

Paned a Cacen. Dewch draw i Swyddfa Mantell Gwynedd yn Nolgellau i ddal fyny gyda gwirfoddolwyr eraill Ffrindia'.



Mae Ffrindia' yn ddiolchgar iawn o ymroddiad ein holl wirfoddolwyr. Ar gyfer y cylchlythyr yma wedi cynnwys hanes gwirfoddoli Wendy.

Cychwyn 2014 daeth Wendy Davies o Drawsfynydd i glywed am Cynllun Cynfeillio Ffrindia' . Roedd yn awyddus gwirfoddoli i roi ei amser i fod o gymorth i eraill.



“Dwi'n rhoi awr o fy amser bob wythnos i alw draw i weld Mrs Macateer am banded a sgwrs. Pan gyrhaeddai adra dwi wir yn teimlo fy mod wedi gwneud gwahaniaeth. ” - teimladau Wendy am y cyfeillio .

Er fod Wendy yn dilyn cwrs hyfforddiant, a gyda teulu yn ei chadw yn brysur. Mae hi dal yn rhoi ychydig o'i hamser i wirfoddoli.

Sylw Mrs Macateer o Flaenau Ffestiniog am Gynllun Ffrindia' – “ Mae'r cynllun yn grêt a mae Wendy yn annwyl dros ben.”

Mirain Roberts

Cydlynydd Meirionnydd

Mantell Gwynedd

Yr Hen Orsaf Heddlu,

Y Lawnt

Dolgellau LL40 1SB

01341 422 575

mirainf@mantellgwynedd.com

CINIO NADOLIG 2014

Ar y 3ydd o Rhagfyr daeth gwirfoddolwyr Ffrindia' Meirionnydd at eu gilydd i fwynhau pryd o fwyd yn Y Gader, yng Ngholeg Meirion Dwyfor.

Er fod Mirain ddim wedi gallu bod yn bresennol, clywodd gan lawer un bod y bwyd yn dda iawn.

Roedd rhai o'r gwirfoddolwyr yn cyfarfod â'i gilydd am y tro cyntaf.